GWESTY VICTORIA

Mae'r Vic yn cael ei redeg gan deulu ac fe gewch yno lety gwych, bwyd ardderchog a chroeso cynnes iawn. Beth am ddod yn gynnar a mwynhau pryd o fwyd, ar gael o 6 o'r gloch ymlaen, neu hyd yn oed aros noson? Gwybodaeth/Cadw lle: vicmenai.com Ffôn: 01248 712309

SESIWN JAMIO

Mae'r gynulleidfa a cherddorion gwadd wrth eu bodd â sesiynau jamio Jazz Gogledd Cymru. Mae'r rhaglen bob amser yn amrywiol ac yn ddifyr ac mae croeso i unrhyw gerddorion a hoffai roi cynnig ar jazz, beth bynnag eu lefel, eistedd gyda'r band o dan arweiniad y trwmpedwr dawnus, Neil Yates a Trefor Owen (gitâr).

Bydd llawer o gynulleidfa Jazz Gogledd Cymru'n gyfarwydd â Neil Yates (trwmped) gan mai ef, a'r sacsoffonydd tenor Dean Masser, oedd blaenwyr y Jazz Worriers. Mae Neil wedi perfformio yn y byd pop gydag artistiaid fel The Brand New Heavies, Robbie Williams a llawer rhagor, yn y byd jazz gyda mawrion fel Peter King, Don Weller, Denys Baptiste, y Jazz Jamaica All Stars, Clark Tracey ac NYJO, ac wedi chwarae ar albwm "Migrations" band Gary Crosby, Nu Troop.

Bu Trefor Owen, gitarydd jazz enwocaf Cymru, yn teithio Prydain gyda gitaryddion Americanaidd o fri fel Mundell Lowe a Randy Johnston ac mae wedi perfformio llawer yn yr Unol Daleithiau – yn San Francisco ac LA, yn y Classic American Guitar Show, Efrog Newydd ac yn yr enwog Jazz Cafe, Sefydliad Smithsonian, Washington DC. Mae Trefor wedi hyfforddi llu o gerddorion jazz ac mae'n diwtor preswyl yn y penwythnosau gitâr jazz rhyngwladol chwemisol a gynhelir yn Wrecsam.

Os ydych yn chwarae offeryn ac yr hoffech weithio ar eich sgiliau jazz, dewch draw i'r gweithdy cyn y sesiwn jamio a chewch gyfle i gydweithio â'r band gan dderbyn arweiniad unigol ac fel grŵp. Ar gyfer pobl o bob gallu. Mae croeso arbennig i gerddorion ifanc.

Gyda **DAVE SALTRESE** (allweddellau), **ANDY MACKENZIE** (gitâr),
GREG ROBLEY (bas) a **JOHN SMITH** (dryms)